TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

# BTEC Diploma Cenedlaethol mewn Cynhyrchu Cyfryngau Creadigol Lefel 3



**Yn gryno**

Byddwch yn dysgu i ddangos sut y gellir cyfleu syniadau, teimladau ac ystyron o fewn y gwahanol feysydd o'r Cyfryngau drwy astudio'r cwrs hwn.

**Dyma'r cwrs i chi os...**

...mae gennych allu mewn maes creadigol

...mae gennych ddawn greadigol wych

...rydych eisiau gyrfa yn defnyddio eich sgiliau celf a dylunio

**Beth fyddaf yn ei wneud?**

Mae'r Cyfryngau'n parhau i fod yn opsiwn dymunol i fyfyrwyr sy'n dymuno dilyn gyrfaoedd creadigol 'traddodiadol', o fewn ffilm, teledu, radio a newyddiaduriaeth. Fodd bynnag, mae'r

rhyngrwyd wedi gweld ffrwydrad o rolau newydd cyffrous yn ymddangos.

Byddwch yn archwilio amrywiaeth o syniadau ac adnoddau perthnasol sy’n ymwneud â’r cyfryngau a ffilm a chreu ymatebion ymarferol iddynt, gan arddangos dealltwriaeth o wahanol arddulliau, genres a thraddodiadau. Bydd llyfrau braslunio/llyfrau gwaith/cyfnodolion yn sail i’ch gwaith prosiect a bydd pwyslais ar ffilmio/ golygu a chynhyrchu cyfryngau.

Mae tiwtoriaid yn gyfredol ac yn berthnasol wrth iddynt barhau i weithio yn eu meysydd arbenigol eu hunain, a'r ethos proffesiynol a'r profiad galwedigaethol hynny fydd yn gwneud yr holl wahaniaeth i'ch astudiaethau.

Byddwch hefyd yn datblygu sgiliau mewn cyfathrebu a thechnoleg gwybodaeth gan ddefnyddio rhifau, cynllunio a gwaith tîm.

Ymhlith modiwlau Cyfryngau mae:

Hysbysebu
Dylunio Pecyn
Graffeg Gyfrifiadurol
Technegau Amlgyfryngol

Byddwch yn cael eich asesu drwy gwblhau gwaith cwrs.

Pan fyddwch yn ei gwblhau, byddwch yn ennill:

Diploma Estynedig Lefel 3 mewn Cyfryngau Creadigol
Gweithgareddau cynorthwyol priodol er mwyn ehangu eich set sgiliau a bodloni anghenion y diwydiant
Cymhwyster Bagloriaeth Cymru

Gweithgareddau Sgiliau

Mathemateg a Saesneg

**Beth a ddisgwylir ohonof i?**

Er mwyn cael mynediad ar y cwrs, byddwch angen o leiaf 5 TGAU gradd C neu uwch, yn cynnwys Mathemateg/Rhifedd a Saesneg/Cymraeg Iaith 1af

NEU

# TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

Cymhwyster Diploma Lefel 2 priodol ar radd Teilyngdod gyda TGAU Gradd C neu uwch mewn Mathemateg/Rhifedd a Saesneg/Cymraeg Iaith 1af.

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Ar ôl cwblhau'r cwrs hwn, bydd cyfle i chi symud ymlaen at addysg uwch neu i weithio mewn diwydiannau megis Teledu a Ffilm, Ffotograffiaeth, Newyddiaduriaeth a Hysbysebu.